

BUCHEDD BANGOR



Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor

Y GRAWYS

2023

LENT

2023



**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

**Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor**



**CYLCHGRAWN
CADEIRLAN
DEINIOL SANT
YM MANGOR
THE MAGAZINE
OF SAINT
DEINIOL'S
CATHEDRAL
IN BANGOR**

5.2.2023-9.4.2023

RHAD AC AM DDIM

EWCH Â CHOPIAU I'W RHANNU

FREE

PLEASE TAKE COPIES TO SHARE

CROESO WELCOME

Gareth Jones


Croeso i'r rhifyn diweddaraf hwn o **Buchedd Bangor**, cylchgrawn **Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor**.

"Buchedd" yw'r enw a roddir ar gofnod o fywyd rhywun, a cheir bucheddau'r saint o'r Canol Oesoedd sy'n adrodd hanes rhai o brif seintiau Celtaidd Cymru.

Mae **Buchedd Bangor**, felly, yn rhyw fath o gofnod o fywyd ein cymuned ni o gyfeillion Crist ym Mangor yr awr hon. Fe geir yma gymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd.

Wrth i ni ddathlu "ger ein bron yng Nghrist ein Duw" yn ein gwasanaeth o Naw Lith a Charol Cy anhwyllau yn ddiweddar, gan nodi diwedd y Nadolig, cefais fy llethu, bron, gan yr ymdeimlad o dymor wedi ei gadw a'i ddathlu'n deilwng. Dros Ddydd Nadolig ei hun a'r ychydig ddyddiau cyn hynny, croesawyd 1,200 o bobl i wasanaethau arbennig yn y Gadeirlan, llawer yn croesi'r trothwy am y tro cyntaf neu (yn well fyth) am yr eildro yn unig. Ond daw'n llawenydd nid yn unig yn sgil y niferoedd fu'n dathlu gyda ni, ond hefyd o egni, harddwch a hygrededd y cyfan y bu i ni ei gynnig i'n dinas, ein hesgobaeth ac i ogoniant Duw.

Mae ein wynebau nawr yn troi gyda rhai Crist tuag at dymor y Grawys, pan aiff Mab Duw i'w dynged yn ein plith, ac yr aiff Goleuni'r Byd ar ei daith, gan ddwyn ynghyd popeth ym mhopeth. Diolch i chi am fod yn rhan o fywyd y Gadeirlan a Bro Deiniol. Yn ôl yr arfer, dyma'ch gwahoddiad i gyd-gerdded gyda ni'r bererindod sydd i ddod.



Welcome to this latest issue of **Buchedd Bangor, the magazine of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.**

"Buchedd" is the old Welsh name given to a record of someone's life, and "bucheddau'r saint" (the "lives of the saints") are those medieval collections of works telling the story of the Age of the Saints.

Buchedd Bangor is, therefore, a sort of record of the life of our community of Christ's companions here in Bangor at this time. It offers a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together.

As we sang our praises to "God in Christ made manifest" at our service of Nine Lessons & Carols of Candlemas recently, marking the conclusion of Christmastide, I was overwhelmed by the sense of a season worthily observed and celebrated. Over Christmas Day itself and a few preceding days, we welcomed 1,200 people to special services at the Cathedral, many crossing the threshold for the first or (even better) only for the second time. But my delight has not only been in the numbers celebrating with us, but in the energy, beauty and integrity of all that we have been able to offer to our city, our diocese and to the glory of God.

Our eyes now turn with those of Christ towards the season of Lent, when the Son of God descends to his fate through our midst, and the Light of the World passes on his way, gathering all things in all. Thank you for being part of the life of the Cathedral and Bro Deiniol. As ever, this is your invitation to walk with us through the weeks that lie ahead.

**Oddi wrth yr
Is-Ddeon
From the
Sub-Dean
Canon Siôn
Rhys Evans**

*Yn eiddo'r iarn,
Siôn*



PANED HEFO TRACY JONES

Ym mhob rhifyn o Buchedd Bangor, rydym yn cwrdd ag aelod o gymuned y Gadeirlan. Y tro hwn, rydyn ni'n cwrdd a Tracy Jones, ein Canon dros Fywyd Cynulledifaol.

Yn holi mae Naomi Wood, ein Cyfarwyddwr Cyfathrebu esgobaethol a'n Gweinidog Teulu yn y Gadeirlan ac ym Mro Deiniol.



Naomi Wood

D'wed wrtha'i chydig am Tracy.

Cefais fy ngeni a'm magu yn Leamington. Roedd fy mam yn Gatholig Rufeinig tra roedd fy nhad yn Eglwys Loegr mewn enw felly cefais fy magu yn Gatholig. Es i i ysgol gynradd Eglwys Loegr ond wedyn i ysgol uwchradd Gatholig.

Pan adewais yr ysgol doeddwn i ddim yn gwybod beth roeddwn i eisiau ei wneud. Roeddwn i'n mynd i wneud Seicoleg yn y Brifysgol ond penderfynais beidio. Dydw i ddim yn gwybod pam. Felly, bûm yn gweithio mewn banciau a chymdeithasau adeiladu am gyfnod ac yna daeth fy ffrind gorau o'r coleg lle'r oedd yn hyfforddi i fod yn giropodydd a dywedodd, "Rwy'n meddwl byddet ti'n gwneud nyrs dda iawn." Hyfforddais yn Coventry a chefais swydd fel nyrs bediatrig ac yna, bron yn syth ar ôl i mi briodi, symudom yn ôl i gartref Martin (mae'n wreiddiol o Fiwmares) a chefais swydd dros dro yn yr uned gofal arbennig i fabanod. Fe wnes i rai misoedd yno ac yna sylweddolais fod angen i mi ddysgu Cymraeg os oeddwn am gadw nyrsio felly gwnes i gwrs WLPAN llawn amser tri mis ym Mhrifysgol Bangor.

A yw ffydd bob amser wedi bod yn rhan o'ch bywyd?

Ar ôl Bedydd Esgob mae llawer o bobl yn syrthio allan o'r eglwys; rwy'n credu i mi redeg i ffwrdd o'r eglwys mewn gwirionedd. Sylweddolais na fyddai gennyf unrhyw rôl benodol o fewn yr Eglwys Gatholig heblaw am gefnogaeth

GETTING TO KNOW TRACY JONES

In each edition of Buchedd Bangor, we meet another member of the Cathedral community. This time, we meet with Tracy Jones, our Canon for Congregation Life.

Asking the questions is Naomi Wood, our diocesan Director of Communications and our Family Minister at the Cathedral and in Bro Deiniol.

Tell me a little about Tracy.

I was born and brought up in Leamington. My Mum was Roman Catholic whilst my Dad was nominally Church of England, so I was brought up Roman Catholic. I went to a Church of England primary school but then a Catholic secondary.

When I left school I didn't really know what I wanted to do. I was going to go and do Psychology at University but just decided not to. I don't know why. So, I worked in banks and building societies for a while and then my best friend came from college where he was training to be chiropodist and he said, "I think you'd make a really good nurse." I trained in Coventry and got a job as a paediatric nurse and then almost immediately after I got married we moved back to Martin's home (he's originally from Beaumaris) and I got a temporary job in the special care baby unit. I did a few months there and then realised I needed to learn Welsh if I was going to keep nursing, so I did a three month full time WLPAN course at Bangor University.

Has faith always been a part of your life?

After confirmation a lot of people fall out of church; I think I actively ran away from church actually. I realised that within the Catholic Church I would have no particular role except that of support or being in the congregation. It



neu fod yn y gynulleidfa. Daeth ar adeg, yn ein dosbarthiadau Bedydd Esgob, pan wahoddwyd y bechgyn i fyny i edrych ar yr allor a gweld beth mae'r offeiriaid a'r gweinyddion yn ei wneud, a cafodd y merched eu gadael yng Nghorff yr Eglwys a meddyliais, "Hmm... iawn. Rwy'n gweld i ble mae hyn yn mynd."

A allai fod yna ymdeimlad o alwedigaeth hyd yn oed bryd hynny a dyna pam y gwnes di redeg i ffwrdd?


Cefais fy swyno cymaint gan yr eglwys a harddwch y cyfan, roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth. Roeddwn i wedi ystyried ymuno â chymuned grefyddol fel lleian! Roedd lleianod bob amser o gwmpas yn yr eglwys yr oedd fy nain a taid yn mynd iddi ac fe wnaethant fy swyno. Nid wyf yn gweld fy hun yn cael ei alw i hynny nawr ond rwy'n dal i feddwl ein bod yn tanamcangyfrif gwerth cymuned sy'n ymroddedig i weddi a gwasanaeth.

Beth ddaeth â thi'n ôl i ble rwyf ti rwan?

Ar ôl gorffen y cwrs Cymraeg es i nôl i'r uned babanod am ychydig. Fe wnes i feichiogi gyda Ffion felly rhoi'r gorau i'r gwaith am gyfnod oherwydd ein bod yn byw ger Amlwch lle nad oedd gofal plant. Tra oedd y plant yn fach mi wnes i stopio dysgu Cymraeg, ond oherwydd fy mod i wedi ei dysgu'n ddwys roedd y pethau sylfaenol wedi gwreiddio cymaint fel nad oedd hi'n anodd ail-ddysgu pan es i nôl i'r gwaith. Roeddwn i'n ceisio gweithio'n llawn amser, gweithio gyda'r nos pan oedd y plant yn fach, a gwneud cymaint ag y gallwn o hynny, ond aeth yn ormod. Felly, fe wnes i orffen, ac roeddwn i wedi diflasu ac felly fe wnes i radd y Brifysgol Agored a gwirfoddolais gyda Home Start am rai blynyddoedd. Byddwn yn mynd i mewn i dai pobl, yn eu helpu ac yn eu cefnogi gyda'u teuluoedd ifanc. Ac yna cwrddais â Kim (Canon Kim Williams) mewn dosbarth crefft. Dywedais wrthi fy mod yn teimlo bod rhywbeth ar goll, y byddwn wrth fy modd yn dod yn ôl i'r eglwys a fy mod wedi rhoi cynnig ar yr Eglwys Gatholig ond nid oedd yn teimlo'n hollol iawn. Gwahoddodd Kim fi i fynd gyda hi. Ar y Sul cyntaf es i roedd y bregeth yn rhywbeth am bêl-droed a meddyliais, "O, mae hyn yn newydd!" Roedd plant Kim o oedran tebyg i fy mhlant i felly fe wnaethon nhw Ysgol Sul a oedd yn wych. Fe wnes i gymryd rhan yno ac roeddwn i wrth fy modd.

Gallaf gofio'r diwrnod pan oedd y Ficer yn sôn am sut mae angen i bobl gamu i fyny a gwneud mwy. Edrychodd ar y gynulleidfa a dweud, "Gwn y dylai rhai ohonoch fod yn offeiriaid eich hunain." Eisteddais yno yn pendroni am bwy y gallai fod yn siarad. Roedd hynny'n hau hedyn ond roeddwn i'n dal i feddwl ei fod yn syniad hurt ac roeddwn i'n dal, yn swyddogol, yn Gatholig Rufeinig. Anfonais e-bost at y Ficer yn dweud fy mod yn meddwl bod hyn yn chwerthinllyd ac mai dim ond ysgrifennu oeddwn i fel y gallai ddweud wrthyf nad oedd yn bosibl. Ysgrifennodd yn ôl gan ddweud ei fod wedi bod yn aros am yr e-bost hwn ers amser maith. Ar ôl cyfnod o sgwrsio ac archwilio cefais wasanaeth derbyn i'r Eglwys yng Nghymru ac mae wedi mynd o'r fan honno, a dweud y gwir.

Ond, wrth edrych yn ôl ar ôl tua 20 mlynedd o fod wedi "rhedeg i ffwrdd" oddi wrth Dduw, gallaf weld Duw ar waith yn ystod y



came at the moment when in our Confirmation classes the boys were invited up to look at the altar and see what the priests and servers do, and the girls were just left in the Nave and I thought, "Hmm... okay. I see where this is going."


Might there have been a sense of vocation even then and that's why you ran away?

I was so enthralled by church and the beauty of it all, I did want to do something. I had actually considered joining a religious community as a nun! Nuns were always around in the church that my grandparents went to and they fascinated me. I don't see myself called to that now but I still think we underestimate the value of a community committed to prayer and service.

What brought you back to where you are now?

After finishing the Welsh course I went back to the baby unit for a while. I got pregnant with Ffion so gave up work for a period because we were living near Amlwch where there was no childcare. While the children were little I stopped learning Welsh, but, because I had learnt it so intensively, the basics were embedded so it wasn't hard to re-learn when I went back to work. I was trying to work full time, work nights when the children were little and do as much as I could of that, but that got too much. So, I finished, and I was bored, and so I did an Open University degree, and I volunteered with Home Start for a few years. I would go into people's houses, help them out and support them with their young families. And then I met Kim (Canon Kim Williams) in a craft class and I was saying that I felt something was missing and would love to come back to church. I'd tried the Catholic Church but it didn't feel quite right. So she invited me to go along with her. The first Sunday I went the sermon was something





DYNA UN O'R PETHAU RWY'N EI GARU FWYAF AM Y PANEL DIRNADAETH - HELPU POBL I WIREDDU EU LLAWN BOTENSIAL AC I GAMU ALLAN I HYNNY

blynyddoedd hynny. Rwy'n teimlo fy mod yn ddarn mewn gêm o chess yn cael ei symud gan Dduw a bod pobl yn cael eu rhoi yn fy mywyd am reswm. Rwyf wedi cael sawl moment o sylweddoli, "Waw! Roeddet ti yno drwy'r amser, Dduw!"

Rwyt ti rwan yn gwisgo sawl het wahanol – yn Ganon ar gyfer Bywyd Cynulleidfaol yn y Gadeirlan, yn Ddeon Bro Archddiaconiaeth Bangor ac yn ddetholwr ar Banel Dirnadaeth y Dalaith. Beth sy'n dy gyffroi di yn arbennig yn y rolau hyn?

Pan oeddwn yn astudio i fod yn nyrs, dywedodd ein tiwtor wrthym pan fydd pobl yn dod i'r ysbyty mai ein gwaith ni yw cael y person hwnnw'n ddigon iach i fynd adref neu helpu nhw i arfer â'r sefyllfa newydd y maent ynddi fel y gallant ymdopi â mynd adref. Mae'r un peth gyda bod yn rhiant – rydyn ni'n magu ein plant i fynd i fod yn annibynnol. Rwy'n teimlo bod hynny'n rhywbeth rydyn ni wedi'i golli yn yr Eglwys – ein gwaith ni yw arfogi pobl fel eu bod nhw'n gallu mynd allan a bod yn Gristnogion. Dyna un o'r pethau rwy'n ei garu fwyaf am y panel dirnadaeth – helpu pobl i wireddu eu llawn botensial ac i gamu allan i hynny.

Rwyf bob amser wedi mwynhau gweithio mewn tîm – gyda phobl o'm cwmpas. Mae'n gallu bod yn eithaf unig fel Arweinydd Ardal Weinidogaeth felly mae gallu eu cefnogi nhw a'r cynulleidfaoedd fel Deon Bro yn wirioneddol werthfawr.

Beth fyddet ti'n ei ddweud wrth rywun a ddaeth atat ti a dweud eu bod yn teimlo bod Duw yn gofyn iddynt archwilio galwedigaeth o fewn yr Eglwys?

Byddwn yn eu hannog i weddio arno'n rheolaidd, os nad ydyn nhw eisoes. Byddwn yn rhoi cyfleoedd iddynt brofi gwahanol bethau o fewn yr eglwys ac i weld sut mae gwahanol bobl yn gwneud pethau. Mae rhywbeth pwysig am agor yr holl bosibiliadau o'r hyn y gallant ei wneud. Mae cymaint o bethau y gellir eu gwneud o gynnal a chadw ein hadeiladau i gerddoriaeth i ofalu am y fynwent – nid gweinidogaeth ordeiniedig yn unig mohoni. Rydym yn ffodus yn y Gadeirlan i gael cymaint o gyfoeth o gyfleoedd a gallwn weld yn glir faint o bobl sydd eu hangen i wneud i'r Eglwys ddigwydd. Mae Duw yn ein galw i bethau gwahanol ar wahanol adegau yn ein bywydau ac mae hynny'n gyffrous i'w archwilio. **[B]**

about football and I thought, "Oh, this is new!" Kim's children were a similar age to mine so they did Sunday School, which was great. I got involved there and loved it.

I can remember the day when the Vicar was talking about how people need to step up and do more. He looked out at the congregation and said, "I know some of you should be priests yourselves." I sat there wondering who he could be talking about. That sowed a seed, though. But, I kept thinking it was a ridiculous thought and I was still, officially, a Roman Catholic. I sent an email to the Vicar saying that I thought this was ridiculous and that I was only writing so that he could tell me that it wasn't possible but he wrote back saying that he's been waiting for this email for a long time. After a period of conversations and exploring I had a service of acceptance into the Church in Wales and it's gone from there, really.

But, looking back after 20 years or so of having "run away" from God I can see God at work during those years. I feel like I was a chess piece being manoeuvred around by God and people were put in my life for a reason. I've had several moments of realising, "Wow! You were there the whole time, God!"

You now wear several different hats - Canon for Congregational Life at the Cathedral, Area Dean for the Archdeaconry of Bangor and a selector on the Provincial Discernment Panel. What is it that particularly excites you in these roles?

When I was studying to be a nurse our tutor told us that when people come into hospital our job is to get that person well enough to go home, or used the new situation they find themselves in so they can cope with going home. It's the same with parenthood – we raise our children to go and be independent. I feel that that's something we've lost in the Church – our job is to equip people so they can go out and be Christians. That's one of the things I love most about the discernment panel – helping people to realise their full potential and to step out into that.

I've always enjoyed working within a team – with people around me. It can be quite lonely as a Ministry Area Leader so being able to support them and the congregations as Area Dean is really valuable.

What might you say to someone who came to you and said that they felt God was asking them to explore a vocation within the Church?

I'd encourage them to pray on it regularly, if they aren't already. I'd give them opportunities to experience different things within the Church and to see how different people do things. There's something important about opening up all of the possibilities of what they can do. There are so many things that can be done from maintaining our buildings to music to caring for the churchyard – it's not just ordained ministry. We are fortunate at the Cathedral to have such a wealth of opportunities and we can clearly see how many people are needed to make Church happen. God calls us to different things at different times in our lives and that's exciting to explore. **[B]**



NID AR EIN PENNAU'N HUNAIN



Abaty Iona
Iona Abbey

Dim ond unwaith y bum i erioed i aros yn Abaty Iona ar Ynysoedd Heledd yr Alban.

Mae'n le cyfrin – hafan i fynachaeth Geltaidd bron mor bwysig â Bangor am ganrifoedd lawer yng nghanol y mileniwm cyntaf, cartref heddiw i'r Iona Community – cynumed ddeinamig a chyfiawn o gerddorion a phroteswyr cymdeithasol, ac wedi'i lleoli mewn lle o harddwch rhyfeddol. Dyma lle y bu i weddillion Cristnogaeth yr ynysoedd hyn fodoli o few drwch blewyn i foddï ar ôl cwmp Rhufain; ac mae na flas cyffrous o'r bregus yno o hyd. Ond dim ond unwaith y bûm i yno – yn rhannol oherwydd mi ga'i rhyw adlais hunllefus o Langrannog neu Lan Llyn yn y golchi llestri ar y cyd – rhyw ofn y bydd na swog yn mynu can epillog unrhyw funud; ac yn rhannol oherwydd ei bod yn hynod o anodd cyrraedd Iona'n y lle cyntaf.

O Fangor, rhaid yn gyntaf ddal y trê'n i Crewe (pob lwc hefo hynny), yna trê'n arall i Glasgow Canolog, ac yna drydydd cymal o Glasgow Queen Street (anghofiais am y newid gorsaf) yr holl ffordd fyny i Oban yn Argyll, ar lan y môr – lle y gadawn ni'r tir mawr ar ôl llymaid o'r wisgi lleol. Ffwrdd â ni wedyn mewn cwch ar draws y Swnt i Ynys Mull; a bws dros waun a rhos, cyn ail fferi'n croesi filltir olaf o fôr i ynys Iona ei hun, lle nad oes na ddim byd pellach i'r gorllewin na dyfroedd oer yr lwerydd.

NO ONE IS SAVED ALONE

Pregethwyd y bregeth hon gan yr Is-Ddeon ar Ail Sul y Nadolig, 1 Ionawr 2023.

Y llithoedd oedd Colosiaid 1:11-19 a Luc 2:15-20, a'r thema yn ei cyfres bregethu ar lenyddiaeth Feiblaidd oedd "Yr Efengylau".

The Sub-Dean preached this sermon on the Second Sunday of Christmas, 1 January 2023.

The lessons were Colossians 1:11-19 and Luke 2:15-20, and the theme in our sermon series on Biblical writings was "The Gospels".


I've only ever once stayed at the Abbey of Iona in the Inner Hebrides of Scotland. It's a majestic place – a centre of Gaelic monasticism to rival even Bangor for many centuries in the middle of the first millennium, a home now for the dynamic and engaged Iona Community of musicians and activists, and located in a place of phenomenal beauty. It's a place where Christianity clung on by the skin of its teeth after the fall of Rome; and you feel there on the very edge of things still. But I've only ever been there once – in part because the "let's all muck in and wash the dishes together" communal life of the Iona Community there isn't quite my cup of tea; and in part because it's phenomenally difficult to get to.

From Bangor, one gets the train to Crewe (good luck with that), then another train to Glasgow Central, followed by a third leg from Glasgow Queen Street (I forgot about the station change) all the way up to Oban in Argyll, by the sea, your last bit of mainland. From there, fortified by the local whisky, one takes the boat across the Sound to the Isle of Mull, a bus through Mull's moorland, and then a second ferry across the final mile of sea to island of Iona itself, after which there's nothing more to the west than the chilly waters of Atlantic.

And on that only occasion on which I've made that journey, it was on that third leg, from Glasgow to Oban, sat in an old-fashioned train carriage for

Ar unig dro i mi ddilyn y daith honno – ar y trydydd cymal hwnnw, o Glasgow i Oban, yn eistedd mewn cerbyd trên hen ffasiwn am dair awr a saith munud – y gwnes i rywbeth a newidiodd fy mywyd i am byth – mi ddarllenais i'r Efengyl yn ôl Sant Marc Sant, o'i dechrau i'w diwedd.

Mae'r darlun yn fyw hyd heddiw – y seddi glas a gwyrddlas wedi'u gwneud o'r *moquette* garw hwnnw hefo'i batrwm geometrig, y rheilffordd ei hun yn droellog, yn llethrau'n drwch o goed pinwydd dan awyr lwyd, a Loch Lomond yn faith ac yn ddwfn yn y dyffryn islaw; ac yn fy nwylo i, ac yn fyw yn fy nychymyg i, yr Efengyl fer hon, wedi ei llenwi â symudiad, wedi ei pheintio gan waed a phroffwydoliaeth, yn basgamu ac yna'n taranu o Galilea i Gaersalem,



DOES NA DDIM LLAWER O BETHAU Y GALLWCH EU GWNEUD A ALLAI NEWID EICH BYWYD CHI. MI ALL DARLLEN EFENGYL, O GLAWR I GLAWR, FOD YN UN OHONYN NHW.

o wyrth i Groes, o ddirgelwch i brynedigaeth; yn fy nwylo i, ac yn fyw yn fy nychymyg i, yn hanes hwn, wedi'i drosglwyddo dros foroedd ac erlidiaethau a thafodiaethau hyd nes iddo'r pnawn hwnnw 'nghyrraedd i, fel y bu iddo gyrraedd eraill di-ri ym Mangor, yn Iona, yn Rhufain, yng Nghaersalem, yn Wybrnant, yn Nolwar Fach, yn Llangrannog, hyd yn oed, am ganrif ar ôl canrif o'm blaen i.

Does na ddim llawer o bethau y gallwch eu gwneud a allai newid eich bywyd chi. Mi all darllen Efengyl, o glawr i glawr, fod yn un ohonyn nhw. Un prynhawn digalon fis Ionawr, gwnewch bot o de; tywalltwch wydriad o win yn gynt na'r arfer; steddwch lawr; darllenwch yr Efengyl yn ôl Marc.

Yn ein cyfres o bregethau yn ystod yr Adfent a'r Nadolig, da ni'n ystyried gwahanol fathau o ysgrifennu yn y Beibl. Da ni eisioes wedi ystyried y llyfrau hanes, a'r proffwydoliaethau, ac ysgrifau'r apocrylps. Dros yr wythnosau i ddod fe fyddwn yn edrych ar lenyddiaeth Doethineb y Beibl, ar yr Epistolau, y Salmau a llyfrau'r Gyfraith. Heddiw, mae'n bryd ni ar yr Efengylau.

Fe feddylw'n ni amdany'n nhw, y pedair Efengyl, efallai, fel y cyntaf o Lyfrau'r Testament Newydd. Nid dyna'r gwir i raddau – mae Epistolau Paul a'r Epistolau Catholig yn ysgrifau cryn dipyn yn gynharach, a'r pedair Efengyl wedi'u llunio ar eu ffurf derfynol yn ystod tri degawd olaf y ganrif gyntaf: Marc yn gyntaf, yn fyr, feiddgar, yn flin, lesu

three hours and seven minutes, that I did something that changed my life – I read the Gospel according to Saint Mark, from beginning to end.

I can see it now – the blue and turquoise seats made out of that rough moquette fabric with its geometric patterning, a winding railway line, slopes thick with fur trees under a gray sky, and Loch Lomond vast and deep down below; and in my hands, and in my mind's eye, this short Gospel, filled with movement, streaked by blood and prophecy, lumbering then thundering messianically from Galilee to Jerusalem, from miracle to Cross, from mystery to redemption; passed down to me, across seas and persecutions and languages, to speak to me as it has spoken to countless others in Bangor, Iona, Rome, Jerusalem for century after century before me.

There aren't many things that you can do that may change your life. Reading a Gospel, from cover to cover, might be one of them. One dank January afternoon, make a pot of tea; pour yourself a sherry; read the Gospel According to Mark.


We're looking, in our sermon series during Advent and Christmastide, at different types of writings in the Bible. We've considered the history books, the prophecies and the apocalyptic writings in Advent. Over the weeks to come we'll look at the Bible's Wisdom literature, at the Epistles, the Psalms and the books of the Law. Today, we think about the Gospels.

We think of them, perhaps, as the earliest of the books of the New Testament. In fact, they weren't – the Epistles of Paul and the Catholic Epistles largely pre-date them, with the four Gospels compiled in the final form in which we have them during the last three decades of the first century: Mark first, the shortest, the bluntest, during which Jesus the Son of God impatiently works out his calling;



yno'n brwydro i fyw ei alwedigaeth yn Fab i Dduw; Mathew a Luc wedyn, yr hanesion yn fwy cywrain, lesu ychydig yn fwy mwyn; Ioan yr olaf i'w lunio, wedi'i strwythuro o amgylch arwyddion cyfrin a dywediadau athronyddol, dwyfoldeb lesu, y Gair wedi'i wneud yn gnawd, wedi'i ddatblygu'n llawn – Ioan yr unig Efengyl lle gelwir lesu yn amlwg yn Dduw gyda ni.

Fe feddyliwn ni amdany'n nhw, y pedair Efengyl, efallai, fel gwaith pedwar dyn. Ond traddodiad yn hytrach nag awduraeth honedig sy'n rhoi i ni enwau'r pedwar Efengyllydd, ac mae'r Efengylau fel yr ydyn ni wedi eu hetifeddu nhw yn waith cynifer o ddwylo – casgliadau o straeon a dywediadau wedi eu trosglwyddo fel traddodiadau llafar; casgliadau ysgrifenedig arwahanol o straeon gwyrthiau, neu straeon



MAE'R EFENGYLAU YNO I'W CLYWED, I'W PERFFORMIO, I FYW YNOM FEL Y CLYWN NI NHW, I FYW YNOM WRTH IDDYNT NEWID EIN BYWYDAU NI

damhegion, neu o ddywediadau lesu; gweithiau coll yn bellach a geisiodd adrodd yr hanes i gyd, fel y gwna'r Efengylau, ac y gwyddom oedd ar gael i'r rhai a luniodd yr Efengylau wrth iddynt hwythau wneud eu casgliadau eu hunain.

Fe feddyliwn ni amdany'n nhw, y pedair Efengyl, efallai, fel pethau sefydlog, wedi eu hargraffu yno, yn ddu ar wyn, wedi eu rhwymo yn gadarn, yn ddigyfnewid eu cyfansoddiad ac yn ddigyfnewid o hyd.


Ond y mae gwraidd yr union air, "Efengyl", i'w gael nid yn y pedwar llyfr yma yn unig, ond yn ei ystyr gwreiddiol o newydd da, rhywbeth a glywn, a dderbyniwn, a ddeallwn ni – rhywbeth sydd hefyd yn mynnu ymateb oddi wrthym ni.

Mi welais i lawysgrifau (codecsau, yn dechnegol) o'r drydedd ganrif y diwrnod o'r blaen – tudalennau o lyfrau cyntefig wedi'u rhwymo'n fras lle byddai ysgrifenyddion yn copïo â llaw destunau beiblaidd. Tudalen frown geir, wedi'i gorchuddio'n drwchus â thestun tywyll – gwaith llaw caled, manwl, hirwyntog rhyw ysgrifennydd ganrifoedd yn ôl. Yr hyn a'm trawodd i, wrth edrych ar y darnau hynafol hyn, gan geisio dehongli rhywbeth a ddylai fod yn gyfarwydd i mi, oedd y ffordd y mae'r holl lythrennau'n llifo heb ymyrraeth, bron yn batrwm geometrig ar y dudalen, fel y deunydd ar hen seddau tren. Enw ysgolheigion am ysgrifennu o'r fath ydi *scriptio continua* – ysgrifennu heb fylchau rhwng y geiriau, nac atalnodi ychwaith, neu wahaniaethu

Matthew and Luke afterwards, the stories more elaborate, Jesus a little gentler; John the last to be compiled, structured around signs and sayings, Jesus's divinity, the Word made flesh, fully developed, John's the only Gospel in which Jesus is explicitly called God with us.

We think of them, perhaps, as the works of four men. But it is tradition, as opposed to a claimed authorship, that gives us the names of the four Evangelists, and the Gospels as we have them are the works of many hands – collections of stories and sayings passed down as oral traditions; discrete written collections of miracle stories, or parables, or sayings; works lost to us know that tried to tell the whole story, as the Gospels do, and which we know that those who compiled our Gospels had access to as they made their own compilations.

We think of them, perhaps, as fixed, printed there, black on white, firmly bound, unchanged and unchanging still.



drwy briflythrennau a llythrennau bach.

Mewn cymdeithas anllythrennog i raddau helaeth, ysgrifennwyd yr ysgrifau hyn i'w darllen, i'w perfformio, bron. Ac mae'n ymddangos i'r ffordd drwchus y cawsant eu hysgrifennu roi pŵer enfawr i'r darllenydd, i'r storiwr, a oedd yn gorfod dirnad, yn gorfod penderfynu, lle i anadlu, beth i'w bwysleisio, pryd i stopio, sut i ddechrau. Nid rhywbeth terfynol, digyfnewid, pendant, felly; ond rhywbeth byw – mae'r Efengylau yno i'w clywed, i'w perfformio, i fyw ynom fel y clywn ni nhw, i fyw ynom wrth iddynt newid ein bywydau ni.

Yn un o'i draethodau cyhoeddus ar y thema gobaith, a ysgrifennwyd pan oedd yn Bab, meddai Bened XVI, a fu farw ddoe, y geiriau hyn:

“Nid ar ei ben ei hun y mae dyn yn byw. Nid ar ei ben ei hun y mae dyn yn pechu. Nid ar ei ben ei hun y caiff dyn ei achub. Mae bywydau pobl eraill yn ymledu i'm rhan i yn barhaus: yn yr hyn yr wyf yn ei feddwl, ei ddweud, ei wneud a'i gyflawni. Ac yn ei dro, mae fy mywyd yn ymledu i fywyd pobl eraill: er gwell ac er gwaeth. Felly [pan fyddaf yn gweddïo dros rywun], nid rhywbeth dieithr, rhywbeth allanol, fydd hynny, hyd yn oed ar ôl marwolaeth. Wedi'n cysylltu â'n gilydd yn a thrwy'r Bod mawr, mae fy niolch i eraill – fy ngweddi i drostynt – yn rhan o waith sancteiddio'n gilydd.”

Wrth i ni godi ar ein traed yn y Gadeirlan hon, o Sul i Sul, o ddydd i ddydd, i glywed yr Efengyl yn cael ei chyhoeddi i ni; wrth i ni eistedd lawr rhyw brynhawn i ddarllen Efengyl Marc; wrth i ni adrodd hanesion o'r Efengyl wrth neiaint a wyresau; nid gwneud rhywbeth ar ein pen ein hunain a wnawn ni, ac fe glywn fwy nag un awdur yn siarad. Fe ddown ni'n rhan o gymuned o eneidiau di-rif sydd wedi clywed y geiriau hyn, y straeon hynny, ac wedi ymateb iddynt, ac wedi cael eu newid ganddyn nhw. “Dyma Efengyl ein Gwardwr,” medden ni. “Moliant i ti, O Grist,” meddai'r dyrfa'n ei hôl. [B]



But the very word, “Gospel”, has its root, not in these four books alone, but in the meaning of good news, something which we hear, we receive, which we understand, and which demands of us a response.

I saw some third-century codexes the other day – frayed pages from the roughly bound books in which scribes would copy out biblical texts. A brown surface densely covered in dark text. What struck me, looking at these ancient fragments, trying to decipher something that should be familiar to me, was the way all of the letters flow without interruption, almost a geometric pattern on the page, like those old train seat fabrics. It’s what academics call *scriptio continua* – writing without spaces or punctuation or distinguishing upper or lower case.

In a largely illiterate society, these codexes were written to be read aloud, to be performed, almost. And the dense way they’re written gave, it seems, huge power to the reader, to the story-teller, who had to work out, to decide, where to breathe, what to emphasize, where to stop, how to begin. Never unchanged or unchanging, never definitive really – the Gospels are there to be alive, to be heard, to be performed, to live in us as we hear, to live in us as they change our lives.

In one of his public essays on the theme of hope, written when he was Pope, Benedict XVI, who died yesterday, wrote these words:

“No one lives alone. No one sins alone. No one is saved alone. The lives of others continually spill over into mine: in what I think, say, do and achieve. And conversely, my life spills over into that of others: for better and for worse. So [that when I pray for someone], my prayer for them is not something extraneous, something external, not even after death. In the interconnectedness of Being, my gratitude to the other – my prayer for them – can play a small part in their sanctification.”

As we stand in this Cathedral, Sunday by Sunday, day by day, to hear the Gospel read to us; as we sit of an afternoon to read the Gospel of Mark; as we tell Gospel stories to our nieces and our grandsons; we don’t do something solitary, and we hear more than a single author speak. We become part of a community of innumerable souls who have heard these words, told those stories, and reacted to them, and been changed by them. “This is the Gospel of our Saviour,” we say. “Praise to you, O Christ,” the centuries reply. **[B]**



CYD-WEDDIWN

PENNOD 2

Mae Esgobion yr Eglwys yng Nghymru wedi ein gwahodd, yn ystod 2023, i ganolbwyntio ar feithrin bywyd gweddigar. Bydd pob rhyfyn o Fuchedd Bangor eleni yn cynnwys erthygl ar destun neu arddull gweddi.

Yn erthygl y rhifyn hwn, mae'r Is-Ddeon yn cyflwyno'r **examen**, yn ddull o fyfyrion weddigar ar derfyn dydd, ac o edrych ymlaen ar bopeth sydd i ddod.

Mae'r *examen*, neu'r archwiliad o gydwybod, yn gyfle i weddio'n feunyddiol, yn heddychlon, yn fyfyrion, ac yn ystyriol. Mae wedi'i wreiddio yng ngweinidogaeth Sant Ignatius Loyola (1491-1556), y diwinydd ac arweinydd cenhadol o Sbaen.

Mae'r *examen* yn ein gwahodd i ganfod symudiad Duw ym mhobl a digwyddiadau ein dydd.

Er ei fod yn ddull ac yn ddisgyblaeth, mae'r *examen* hefyd yn fodd o fyw myfyriol ac ystyriol. Dros amser, wrth inni weddio'r *examen*, down i adnabod presenoldeb Duw yn y foment, yn hytrach na dim ond ar ddiwedd y dydd. Mae'n caniatáu inni fod yn "fyfyrion ar waith."

Efallai y bydd yr *examen* yn cymryd 15-20 munud ar derfyn pob dydd. Cyfres yw o awgrymiadau mewnddrychol y gallwn eu dilyn neu eu haddasu i'n cymeriad a'n hysbryd ein hunain.



Ignatius Loyola
Francisco de Zurbarán (1598-1662)

ON PRAYER

CHAPTER 2

The Bishops of the Church in Wales have invited us, during 2023, to deepen our life of prayer. Each issue of **Buchedd Bangor** this year will include an article reflecting on a means or object of prayer and praying.


In this edition's article, the Sub-Dean introduces the **examen**, a method for reflecting prayerfully at day's end, and of looking ahead at all that is to come.

The *examen*, or examination of conscience, is an opportunity for daily, peaceful, reflective, mindful prayer. It is rooted in the ministry of Saint Ignatius Loyola (1491-1556), the Spanish theologian and missionary leader.

The *examen* invites us to find the movement of God in all the people and events of our day.

The *examen* is an attitude of reflective mindfulness as much as it is a method. Over time, as we pray the *examen*, we come to notice God's presence in the moment, rather than just at the end of the day. It allows us to become "contemplative in action."

The *examen* might take 15-20 minutes at the end of each day. It takes the form of a series of introspective prompts we can follow or adapt to our own character and spirit.



Yn draddodiadol, mae gan yr *examen* bum cam: (1) **presencia**, presenoldeb; (2) **gracia**, diolchgarwch; (3) **recuerde**, cofio; (4) **reflexione**, cnoi cil; a (5) **mañana**, yfory.

PRESENCIA

Dechreuwch gyda saib ac ambell anadl araf, ddofn. Dewch yn ymwybodol eich bod yng nghwmni sanctaidd Duw. Gofynnwch i Dduw am olau – goleuni i'm helpu i edrych ar fy niwrnod gyda llygaid Duw, nid â'm llygaid fy hun yn unig.

GRACIA

Camwch trwy'ch diwrnod yn ddiolchgar yng nghwmni sanctaidd Duw. Canolbwyntiwch ar fendithion y dydd. Edrychwch ar bopeth a wnaethoch, y tasgau a gyflawnwyd gennych, y bobl y gwnaethoch eu cyfarfod. Diolchwch – am y pethau bychain, am y bwyd y gwnes i ei fwyta, y golygfeydd a welais; am y cariad a gefais, am y cariad a roddais, am y dewrder a amlygais.

RECUERDE


Cerddwch eto trwy'ch diwrnod, y tro hwn yn ofalus ac yn fyfyrion yng nghwmni sanctaidd Duw. Canolbwyntiwch ar y teimladau y gwnaethoch chi eu profi yn ystod y dydd. Diflastod? Gorfoledd? Drwgdeimlad? Tosturi? Dictter? Hyder? Pryd bu i mi deimlo gwir lawenydd heddiw? Beth fu'n bryderus neu'n anesmwyth? Beth oedd heriau neu rwystredigaethau heddiw? I ble mae Duw yn cyfarwyddo fy meddyliau?

REFLEXIONE

Yng nghwmni sanctaidd Duw, dewiswch un nodwedd bwysig o'r dydd a gweddiwch ohoni. Efallai mai pechod yw – rhywbeth rydych chi'n ei ddifaru. Efallai mai teimlad yw – un cadarnhaol neu negyddol. Pan mai pryder neu anobaith ddaw i'r wynded, meddyliwch amdanoch chi'ch hun, a phobl eraill, a'r cyd-destun ehangach. Canolbwyntiwch ar y pethau y gallwch chi eu newid, a chydnabod yr hyn na allwch chi ei wneud. Gadewch i weddi godi o'ch calon – boed yn fawl, yn edifeirwch, yn ddiolchgarwch neu'n ymbil. Dyma gyfle i ymddiddan â Duw. Ceisiwch iachâd, cysur a doethineb.

MAÑANA

Edrychwch tua'r dydd a ddaw. Beth sy'n dod i'ch sylw? Nodwch y teimladau sy'n dod i'r wyneb. Ydych chi'n amheus? Yn hapus? Yn bryderus? Yn frwd? Ble mae angen Duw arnaf yn y dydd i ddod? Gyda pha ysbryd ydw i'n wynebu yfory? Gweddiwch mewn ffydd am obaith a gras. Dewch i derfyn, efallai, gyda Gweddi'r Arglwydd. **[B]**



Traditionally, the *examen* has five separate steps: (1) **presencia**, presence; (2) **gracia**, gratitude; (3) **recuerde**, remembering; (4) **reflexione**, pondering; and (5) **mañana**, tomorrow

PRESENCIA

Begin with a pause and a slow, deep breath or two. Become aware that you are in God's holy company. Ask God for light – a light to help me to look at my day with God's eyes, not merely my own..

GRACIA

Skip through your day thankfully in the God's holy company. Focus on the day's gifts. Look at the all that you did, the tasks you accomplished, the people you met. Give thanks – for the little things, for the food I ate, the sights I saw; for the love I received, for the love I gave, for the courage I mustered.

RECUERDE


Walk again through your day, this time carefully and reflectively in God's holy company. Focus on the feelings you experienced during the day. Boredom? Elation? Resentment? Compassion? Anger? Confidence? Where have I felt true joy today? What has troubled or concerned me today? What has challenged or frustrated me today? Where is God directing my thoughts?

REFLEXIONE

In God's holy company, choose one important feature of the day and pray from it. It may be a sin – something you regret. It may involve a feeling – positive or negative. Where there is anxiety or despair, think about yourself, and other people, and the wider context. Focus on the things you can change, and acknowledge what you can't. Allow prayer to arise from your heart – whether praise, repentance, gratitude or intercession. Have a conversation with God. Ask for healing, comfort and wisdom..

MAÑANA

Look toward the day to come. What comes to mind? Pay attention to the feelings that come to the surface. Are you doubtful? Cheerful? Apprehensive? Full of delighted anticipation? Where do I need God in the day to come? With what spirit am I entering tomorrow? Pray in faith for hope and grace. Perhaps close with the Lord's Prayer. **[B]**





EIN CYMDOGAETH YM MANGOR OUR BANGOR NEIGHBOURHOOD

Saif Cadeirlan Deiniol Sant ar ganol stryd fawr hiraf Cymru – 1,265m, neu oddeutu milltir, o un pen i'r llall.

Yn rhifynnau eleni o **Fuchedd Bangor** rydym yn cwrdd â rhai o'r bobl sy'n gweithio at geisio gwneud canol y ddinas yn le ffynniannus.

Y tro hwn, awn y tu ôl i'r llenni yn un o fusnesau hynaf y stryd fawr, sef

yr adwerthwr offer trydanol Emyr Davies a'i Gwmni. Y perchennog, **David Edwards**, sy'n siarad am sut y gall busnes annibynnol ddal i gynnal ei hun yn erbyn cystadleuaeth y cwmnïau mawr, ac am sut y daeth iweithio yno'n y lle cyntaf. Bu David yn sgwrsio â'n gohebydd lleol, **Chris Dearden**.



Saint Deiniol's Cathedral stands at the centre of the longest high street in Wales – 1,265m or around a mile long.

In this year's editions of **Buchedd Bangor** we're meeting some of the people who are working to make our city centre a thriving place.

This time, we go behind the scenes at one of the high street's longest

established businesses, the electrical appliance retailer **Emyr Davies & Co.** Owner **David Edwards** talks about how an independent business can still hold its own against bigger competition, and about how he never planned to be working there in the first place. David was speaking to our resident reporter, **Chris Dearden.**

Rydyn ni bob amser yn gwerthu mwy o boptai wrth i'r Nadolig agosáu. Mae'n bosib mai'r ysgogiad i goginio prydau mawr sy'n rhoi rheswm i bobl benderfynu prynu popty newydd. Neu efallai mai'r teulu'n galw heibio sy'n cymell rhai i gael gwared ar yr hen bopty na fu'n gweithio cystal ers talwm.

Mae'n ddigon posib fod 'na gymaint o resymau ag sy 'na o gwsmeriaid – ond mae hi'n golygu fod cyfnod y gaeaf yn brysurach na fasech chi'n ei feddwl. Eleni, un o'r anrhegion Nadolig mwyaf poblogaidd oedd ffrïwr aer, ac fe gawson ni alwadau ffôn o gyn belled â Manceinion yn holi os oedd ganddon ni rai ar ôl gan fod pob man arall wedi gwerthu allan. Ac mae'r adegau prysur yn parhau i mewn i fis Ionawr wrth i'r anrhegion Nadolig poblogaidd hynny brofi'n ddianghenraid a daw pobl â nhw nôl am ad-daliad.

Mae gwerthu ffrïwyr aer yn un enghraifft o'r modd y mae busnes wedi newid dros y trigain mlynedd ddiwethaf y buon ni mewn busnes. Fy nhad-yng-nghyfraith oedd Emyr Davies, sef sylfaenydd y cwmni, a'i brif alwedigaeth oedd gwaith trydan mewn tai. Ond, roedd ganddo hefyd siop fechan, a dechreuodd werthu peiriannau trydan i'r cartref cyn yr Ail Ryfel Byd.

Doedd hi ddim yn fwriad imi ymwneud â'r busnes. Roeddwn i'n gweithio yng ngorsaf bŵer niwclear Trawsfynydd, lle'r oeddwn i'n un o'r peirianwyr a fu'n helpu i adeiladu'r safle yn y lle cyntaf. Ond aeth Emyr Davies yn wael ac fe ddois i yma i roi help llaw. Ddegawdau'n ddiweddarach, mae Vera, fy ngwraig, a finnau'n dal i fod yn berchen ar y busnes a ni'n dau sy'n cynrychioli dwy ran o dair o'r staff!

Mae enw tad Vera bob amser wedi'i gadw uwchben y drws er parch i'r enw da oedd ganddo ym Mangor ac roedd hynny'n rhywbeth y buon ni'n medru adeiladu arno wrth inni ehangu maint y siop a'r amrywiaeth o'r hyn rydyn ni'n ei werthu. Erbyn heddiw, mae ganddon ni rai cwsmeriaid sydd wedi bod yn driw inni ers bron i hanner can mlynedd. Daeth un ddynes i mewn yn ddiweddar isho prynu peiriant golchi newydd i gymryd lle'r un a fu ganddi ers ugain mlynedd.

**RELIGION HAS AN
IMPORTANT PART
TO PLAY IN OUR
COMMUNITY, AND
PEOPLE ARE PROUD
THAT BANGOR IS A
CATHEDRAL CITY**

W

e always sell more cookers in the run up to Christmas. Maybe cooking a big meal gives people a reason to get round to buying a new oven. Or perhaps the family coming over is

a good reason to deal with the old cooker that hasn't been working properly during the year.

There's probably as many reasons as we have customers – but it does mean that the winter period is busier than you might think. This year, one of the must-have Christmas presents was an air fryer, and we had people ringing us up from Manchester to see if we had any left because everywhere else had sold out. And the busy times continue into January as those must-have Christmas presents become unwanted gifts and people bring them back for a refund.

Selling air fryers is just one example of how the business has changed over the past sixty years that we've been around. It actually started as an electrical contractor. Emyr Davies, whom the business is named after, was my wife's father, and his main line of work was electrical wiring in houses. But he also had a small shop, and was starting to sell domestic appliances before the Second World War.

It wasn't my intention to get involved in the business. I was working at Trawsfynydd nuclear power station, where I was one of the engineers who helped construct the site in the first place. But Emyr Davies fell ill and I came in to help out. Several decades later, the business is still owned by my wife Vera and me; we also make up two thirds of the staff!

We've always kept Vera's father's name over the door because he had an established reputation in Bangor, and that was something we've been able to build on as we expanded both the size of the shop and the range of what we sell. We've now got customers who've been with us for almost 50 years. One lady came in recently to replace the washing machine she'd had for around two decades.

I like to hope that we can offer people chance to see appliances for themselves – which you don't get online – and also chance to get an informed answer to their questions, but without any hard sell. It gives us chance to build a relationship with people, and to make sure that people get what they want at a price they are happy with.

But it can still be tough running an independent shop nowadays. The most significant thing we've done is to become part of the Euronics group. It's a network of local electrical shops like ours, but it's also the largest electrical buying group in Europe. That means we can compete on price with the big names and with online retailers – and we do.

While we've managed to keep our business going, we've seen huge changes in Bangor High Street. Shops like Muirs and Huberts (both clothing shops), County Records and Cob Records were once big names at this end of the street, but have all now vanished. And the



Dwi'n hoffi meddwl fod modd inni gynnig y cyfle i bobl weld y peiriannau drostyn nhw'u hunain – rhywbeth sy'n amhosib ichi allu gwneud ar-lein – a hefyd y cyfle i gael atebion gwybodus i'w cwestiynau, ond heb bwysu ar neb i brynu. Mae'n gyfle inni adeiladu perthynas gyda phobl, a gwneud yn siŵr eu bod yn cael beth maen nhw isho ac am bris sy'n eu bodloni nhw.

Ond mae'n hi'n dal i fod yn dalcen caled rhedeg siop annibynnol y dyddiau hyn. Y cam mwyaf arwyddocaol wnaethon ni oedd ymuno â grŵp Euronics, sef rhwydwaith o siopau trydanol lleol debyg i ni, ond mai dyma'r grŵp prynu deunydd trydanol mwyaf yn Ewrop. Mae hynny'n golygu fod modd inni gynnig prisiau cystadleuol o'u cymharu â'r enwau mawr a masnachwyr ar-lein – ac mae'n llwyddo.


Tra'n bod ni wedi llwyddo i gadw'r busnes ar ei draed, rydyn ni wedi profi newidiadau anferth yn Stryd Fawr Bangor. Bu siopau fel Muirs a Huberts (y ddau yn siopau dillad), County Records a Recordiau'r Cob yn enwau amlwg ar ben yma'r stryd, ond maen nhw wedi diflannu bob yn un. Bellach y broblem fwyaf ar Stryd Fawr Bangor ydy siopau gwag. A dweud y gwir, mae 'na lai ohonyn nhw na 'da chi'n feddwl, ond mae rhai o'r unedau mwyaf yn wag ac yn mynd i edrych yn ddigon blêr, sydd ddim yn ddelwedd dda i'r ddinas.

Ond rydyn ni'n parhau i fod yn optimistaidd. Mae deintydd newydd wedi agor ychydig ddrysau oddi wrthon ni, sy'n rhoi rheswm i bobl ddod i'r rhan hon o'r ddinas. Dydyn ni ddim yn bell o gyffordd Stryd y Deon ac, mewn gwirionedd, mae'r rhan hon o'r Stryd Fawr yn gwneud yn well na rhannau eraill o'r ddinas. Chafodd hi 'rïoed ei neilltuo i gerddwyr yn unig, felly mae pobl yn dal i allu parcio'n agos at y siop, galw heibio a chymryd golwg. Fe fase hi'n braf petai'r cyngor yn ail-wynebu'r stryd cofiwch, gan fod cymaint o fân-dyllau ar y lôn.

Weithiau mae Cadeirlan Deiniol Sant yn teimlo'n bell i ffwrdd, er ein bod yn cyd-fyw ar yr un stryd! Roedd teulu 'ngwraig, ac Emyr ei hun, yn aelodau yn Peniel, capel y Bedyddwyr ar Ffordd Garth ond, bellach, diwrnod o orffwys ydy dydd Sul i ni. Rydyn ni wrthi'n gweithio yng nghanol Dinas Bangor chwe diwrnod yr wythnos ac, a deud y gwir, rhaid cyfaddef ei bod hi'n dda cael un diwrnod heb orfod ailadrodd y siwrne!

Ond dwi'n dal i gredu fod gan grefydd ran bwysig i'w chwarae yn ein cymuned, ac mae pobl yn browd o'r ffaith fod 'na eglwys gadeiriol ym Mangor. Fel yr enw, Emyr Davies a'i Gwmni, rydyn ni "yma o hyd."

[B]




biggest problem with Bangor High Street is the empty shops. There's actually fewer of them than you might think, but some of the biggest units are empty and they look very tatty, dragging down people's perception of the city.

But we're staying optimistic. A new dentists business has just opened up a few doors away, and is giving people a reason to come to this part of the city. We're just down from the junction with Dean Street, and this section of the High Street is actually doing better than some other parts of the city. It's never been pedestrianised, so people can still park close to the shop, call in and look around. It would be nice if the council resurfaced the street mind you, sometimes people complain they've ended up parking in a pothole!

Saint Deiniol's Cathedral sometimes feels a long way away, even though we're on the same street! My wife's family, and Emyr Davies himself, were members of the Penuel Baptist chapel on Garth Road, but Sunday is a day of rest nowadays. We come into Bangor city centre six days a week for work, and it's actually nice to have one day where we don't have to repeat the journey!

But I still believe religion has an important part to play in our community, and people are proud that Bangor is a cathedral city. Like the name Emyr Davies & Co: we're still here and no plans to go anywhere else just yet. [B]





EIN CYMDOGAETH YM MANGOR
OUR BANGOR NEIGHBOURHOOD

O GASGLIADAU STORIEL FROM THE STORIEL COLLECTION

Mae Storiel, amgueddfa ac oriel sirol Gwynedd, yn gymydog inni yng Nghlos y Gadeirlan.

Mewn cydweithrediad â Chyfeillion Storiel, mae **Buchedd Bangor** yn cynnwys gwrthrych o gasgliad Storiel ym mhob rhifyn.

Storiel, the county museum and gallery for Gwynedd, is our neighbour in the Cathedral Close.

In collaboration with the Friends of Storiel, **Buchedd Bangor** features in each issue an object from Storiel's collection.



Maen Llantrisant | Maen arysgrifedig o ddiwedd y chweched ganrif O.C. o ogledd Môn, a beddargraff i "...iva" a molawd i "Bivatisus", ei gŵr


